Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Asesiad Effaith Cyfunol ar gyfer Adolygiad Buddsoddi 2023

## Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun – y Cynnig

Dogfennau Ymgynghori Adolygiad Buddsoddi 2023

**Newydd:** ☑

**Diweddariad i fersiwn sy'n bodoli eisoes:** ☐

| | |
|---|---|
| **Tîm / Adran:** | Datblygu'r Celfyddydau / CEU |
| **Person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad:** | Lleucu Siencyn, Angela Thomas, Judith Musker Turner |
| **Dyddiad yr asesiad:** | 30 Mehefin 2022 |

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cyflwyniad

Pwrpas yr Asesiad Effaith Cyfunol (Combined Impact Assessment – CIA) hwn yw sicrhau fod y polisïau a'r strategaethau a ddatblygir gennym yn hybu blaenoriaethau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau. Yn yr achos hwn mae'n golygu Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg, a 7 Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA).

Mae'r CIA yn cyfrannu at lunio polisi effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith ac oblygiadau ein gwaith. Drwy fynd i'r afael yn benodol â'r materion hyn ar gam cynharaf cynllunio, rydyn ni'n fwy tebygol o ddatblygu cynigion sy'n ateb blaenoriaethau'r Cyngor yn y ffordd orau. Ac os yw'r broses hon yn amlygu pynciau llosg neu broblemau, mae gennym gyfle i weithredu'n lliniarol i gywiro pethau. Mae hyn yn ein helpu i ateb ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy gydol y ddogfen hon, byddwn ni'n defnyddio'r gair 'Cynnig' i gyfeirio at y peth yr ydym ni'n ei asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys strategaethau, prosiectau, polisïau, rhaglenni a mentrau, gan gynnwys rhai newydd ac unrhyw rai sy'n bodoli eisoes ond sy'n mynd drwy newidiadau / diweddariad sylweddol.

Fersiwn ddrafft gychwynnol o'r CIA ar y Ddogfen Ymgynghori Adolygu Buddsoddiad yw hon, a fydd yn mynd drwy ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 18 Gorffennaf a 10 Hydref 2022. Bydd y fersiwn derfynol yn cynnwys gwelliannau a wnaed mewn ymateb i adborth o'r ymgynghoriad.

A fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau canlynol, gan ddarparu lefelau addas o fanylder.

## 1. Beth yw prif amcanion / pwrpasau / deilliannau'r Cynnig?

Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol ble mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl.

Mewn ymateb i fyd cyfnewidiol o'n cwmpas wrth i ni ddod allan o'r pandemig, byddwn ni, drwy gyfrwng yr Adolygiad Buddsoddi hwn, yn amlinellu dull newydd o fynd i'r afael â chlustnodi cyllid aml-flwydd i sefydliadau, ynghyd â gofyniad dyfnach i weld y sefydliadau hynny sy'n derbyn cyllid i gwrdd â'n hamcanion.

Mae ein dull arfaethedig yn symud o ddull anhyblyg o gyllido i fodel sy'n llawer mwy hyblyg ac ymatebol i sefydliadau, ble byddwn ni'n disgwyl i gyrff a gyllidir ddarparu ar ddeilliannau yn unol â'n blaenoriaethau ni.

Rydyn ni'n cynnig symud o fodel portffolio, i ystod ehangach o ddewisiadau cyllido aml-flwydd i sefydliadau, ac o ganlyniad, byddwn ni'n dymuno gweld sefydliadau a gyllidir gennym ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gyflawni mwy o ymgysylltiad â phob ffurf ar y celfyddydau er budd cymunedau ac unigolion.

Mae'r model newydd yn golygu cael strwythur newydd ar gyfer cyllido, nad yw'n cael ei gyfyngu gan un ffenest 'adolygiad buddsoddi'.

Sail cytundebau'r dyfodol bydd cynnig **tair blynedd o gyllid**, gyda'r potensial o gynnig hyd at dair blynedd ychwanegol o gyllido craidd, yn ddibynnol ar gynnydd a'n hyder cyfunol yng nghynnydd parhaus y sefydliad.

Rydyn ni'n adnewyddu'r **blaenoriaethau buddsoddi** sy'n gyrru ein penderfyniadau cyllido, wedi'u seilio ar ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Seilir ein gweledigaeth ar y chwe blaenoriaeth ganlynol:

i. **Creadigrwydd:** celf sy'n ddychmygus, yn nodweddiadol, yn rhyngwladol ei golygon, wedi'i chreu'n uchelgeisiol mewn dulliau cyfrifol a pherthnasol, ac sy'n atseinio ymysg unigolion a chymunedau.

ii. **Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant**, er mwyn i unigolion a chymunedau allu gwneud, cyd-greu a phrofi celfyddyd ar eu telerau'u hunain.

iii. **Y Gymraeg** yn ffynnu yn ein bywydau creadigol; gallu creu, cyfranogi a phrofi'r celfyddydau yn ein dewis iaith, ac ar yr un pryd adlewyrchu bywyd yng Nghymru'n ddilys.

iv. **Cyfiawnder hinsawdd** drwy gyfrwng creadigrwydd a gweithredu sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesol.

v. **Meithrin doniau** ar gyfer dyfodol gwydn, gyda llwybrau sy'n galluogi pawb i ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth.

vi. **Trawsnewidiad** – cydio mewn cyfleoedd newydd a mentro, bod yn wydn ac ymatebol i newidiadau, ac ar yr un pryd barhau i fod yn berthnasol i bobl a chymunedau.

## 2. Pwy sy'n cael eu heffeithio gan y Cynnig neu pwy y bwriedir iddynt elwa o'r Cynnig a sut?

Mae'r cynnig hwn yn effeithio'n bennaf ar aelodau presennol Portffolio Celfyddydol Cymru (Arts Portfolio Wales – APW) ac unrhyw sefydliad nad yw yn y Portffolio ar hyn o bryd sy'n ateb meini prawf cymhwysedd yr Adolygiad Buddsoddi.

Ymysg y rhai fydd yn elwa o'r cynnig mae sefydliadau celfyddydol, artistiaid, a'r cyhoedd cyffredinol yn ehangach. Mae'r olaf hyn yn fuddiolwr allweddol, am mai egwyddor sylfaenol yr Adolygiad Buddsoddi yw gwreiddio tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol ynghanol ein gwaith. Ein bwriad yw cynnwys pobl sydd â phrofiad o fyw yn ein proses o benderfynu yng nghyswllt yr Adolygiad Buddsoddiad.

## 3. A gafodd partïon a effeithir eu hymgysylltu / ymgynghori ynghylch y Cynnig?

Bydd gweithgaredd yr Adolygiad Buddsoddi'n dechrau gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gan gynnwys cyfle i wneud sylwadau ar y ddogfen ddrafft hon. Rydyn ni eisiau rhoi cyfle i bawb – ac nid dim ond y sefydliadau sy'n cymryd rhan ym mhroses yr Adolygiad Buddsoddi – wneud sylw ar bwrpas a deilliant delfrydol yr Adolygiad a'r broses ymgeisio y bwriedir ei defnyddio gennym.

Bydd yr ymgynghoriad yn digwydd rhwng 18 Gorffennaf 2022 a 10 Hydref 2022, a bydd yn ceisio adborth ar y canlynol:

- Dogfen Ymgynghori
- Asesiad Effaith Cyfunol

Bydd y Cyngor yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd, a chyhoeddir ei ymateb ym mis Rhagfyr 2022, pan fydd fersiynau terfynol yr uchod hefyd yn cael eu cyhoeddi.

Bydd y broses ymgeisio'n agor tua dechrau mis Ionawr 2023.

## 4. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw argraff negyddol neu i hybu effaith gadarnhaol ar grwpiau a warchodir, yr Iaith Gymraeg a nodau Cenedlaethau'r Dyfodol?

**Llenwch y tabl yn Atodiad 1 os gwelwch yn dda.**

**Os daw addasiadau i'r amlwg, rhestrwch hwy yn y Templed Gweithredu yn Atodiad 2.**

Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ystyried y ddogfen Ymgynghori Adolygu Buddsoddi. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Atodiad 1 i weld ystyriaeth fanwl o ddarpar effeithiau cadarnhaol a negyddol ein cynigion i'r Adolygiad Buddsoddi yn achos pob un o'r uchod.

Bydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu deilliannau'r ymgynghoriad a fersiynau terfynol y dogfennau uchod, cyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022. Nid yw'n cynnwys ystyriaeth o ddarpar effaith y gwaith ar y sefydliadau fydd yn llwyddo i dderbyn trefniadau cyllido aml-flwydd yn wyneb ein blaenoriaethau strategol. Bydd hyn yn ystyriaeth ar wahân pan gadarnheir y sefydliadau hynny.

## 5. Sut fydd y Cynnig yn helpu i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hybu perthynas dda?

Un o bwrpasau allweddol yr Adolygiad Buddsoddi yw sicrhau fod pawb – waeth beth fo'u cefndir, eu lleoliad daearyddol neu'u diwylliant – yn cael mynediad i ddarpariaeth gelfyddydol o safon uchel, boed hynny fel ymarferydd, cyflogai, cyfranogwr neu aelod o gynulleidfa. Er mwyn gwireddu hyn ein bwriad yw cynnwys pobl â phrofiad o fyw yn ein prosesau penderfynu ynghlwm â'r Adolygiad Buddsoddiad.

Mae'r Adolygiad Buddsoddi'n agored i bob sefydliad sy'n ateb y meini prawf cymhwysedd i ymgeisio. Fel darpar dderbynwyr symiau sylweddol o arian cyhoeddus, gosodwyd y meini prawf hyn i sicrhau fod y sefydliadau'n gallu dangos safonau da o lywodraethiant, a'u bod wedi'u cyfansoddi'n gywir i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion perfformio, monitro ac adrodd sefydliad sy'n derbyn trefniant cyllido aml-flwydd.

Gweithredir telerau'r Adolygiad Buddsoddi'n gyson i bob sefydliad cymwys sy'n gwneud cais am drefniadau cyllido aml-flwydd. Ni amlygwyd unrhyw ddarpar effeithiau gwahaniaethol sylweddol. Serch hynny, ceir rhai effeithiau gwahaniaethol bychan, rhai cadarnhaol a negyddol. Rhoddir tystiolaeth amdanynt drwy gyfrwng yr ystyriaethau a amlinellir yn yr atodiadau cysylltiedig.

| **Cymeradwywyd yr Asesiad Effaith Cyfunol gan:** | **Dyddiad Cymeradwyo:** |
|---|---|
| Cyngor | Drafft – 8 Gorffennaf 2022 |

# Atodiad 1

**Asesiad Effaith a Grymuso**

Mae'r adran hon yn gofyn i chi asesu effaith y cynnig ar bob un o'r grwpiau a warchodir, yr iaith Gymraeg a Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, amlygwch effeithiau'r Cynnig hwn ar y grwpiau canlynol.

**Nodwch ddarpar effaith os gwelwch yn dda**

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** *(ar draws yr holl sbectrwm oedran)* | Effaith gadarnhaol | | | Pobl ifanc – Mae ein Papur Adolygiad Buddsoddi'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu rôl y celfyddydau a chreadigrwydd ym mywydau a dulliau pobl ifanc o geisio dysg. | | Un o egwyddorion arweiniol ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yw gweld pobl ifanc ac artistiaid yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu'u doniau gyda chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys mwy o dargedau manwl sy'n cynnwys ehangu Cynllun Cydweithredwyr Cyngor Celfyddydau Cymru i gynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Byddai hyn yn cynnwys y broses Adolygiad Buddsoddi. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Grwpiau oedran eraill – Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant** yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ar draws pob nodwedd a warchodir, gan gynnwys oedran. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniadau a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw effaith wahaniaethol. | | Mae gweld sut y mae sefydliadau yn datblygu lle celf a chreadigrwydd ym mywydau a dysg pobl ifanc yn rhan o'n blaenoriaeth ar gyfer **cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** yn rhywbeth a bwysleisir wrth asesu ceisiadau.<br><br>Bydd ein gwaith yn cefnogi strategaeth Cymru Gyfeillgar i'r henoed yn sicrhau effaith gadarnhaol ar bobl hŷn ac yn hysbysu ein gwaith at y dyfodol o ran cefnogi'r sector. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl a b/Byddar** | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein gwaith ymchwil a'n tystiolaeth o ganlyniad i fonitro yn dweud wrthym yn gyson bod pobl fyddar ac anabl yn parhau i wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at y celfyddydau. Yn 2020/21 roedd yna:<br><br>119 person B/byddar neu anabl yn gweithio i sefydliadau o fewn y portffolio (38% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol).<br><br>37 o bobl B/fyddar neu anabl ar fyrddau rheoli'r portffolio (i fyny 27%). | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl anabl yn faes ffocws allweddol i ni.<br><br>Cyfeiriwch at y golofn nesaf i weld y dulliau gweithredu rydyn ni'n eu dilyn i fynd i'r afael â'r ystyriaeth hon. | Bydd hyrwyddo eang o'r cyfle i fod yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a bydd sefydliadau cymwys yn medru cyflwyno cais i'r Adolygiad Buddsoddiad. Cefnogir hyn trwy gyfrwng cyfres o weithdai ar-lein wedi eu cynllunio i annog cyfraniadau a bod yn rhan o'r broses, yn arbennig felly gan grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli ar hyn o bryd. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl a Byddar** | | Effaith negyddol | | Rydym wedi cyhoeddi ein hymrwymiad yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol i dreblu faint o bobl anabl, gan gynnwys pobl F/fyddar sydd ar Fyrddau APW, a dyblu'r nifer a gyflogir ym maes y celfyddydau.<br><br>Bydd yr Adolygiad Buddsoddi'n gwahodd cynigion gan grŵp dethol o sefydliadau sy'n ateb ein Meini Prawf Cymhwysedd cyhoeddedig.<br><br>Rydyn ni'n ymwybodol fod sefydliadau a arweinir gan Anabledd yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn ein Portffolio presennol. | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl anabl yn faes ffocws allweddol i ni.<br><br>Cyfeiriwch at y golofn nesaf i weld y dulliau gweithredu rydyn ni'n eu dilyn i fynd i'r afael â'r ystyriaeth hon. | Mae cynyddu faint o bobl anabl sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau'n rhan o'n blaenoriaeth ym maes **tegwch, amrywiaeth** a **chynhwysiant**, a bwysleisir wrth asesu ceisiadau.<br><br>Byddwn ni'n sicrhau bod ein proses ymgeisio a'n meini prawf dros ddyrannu cyllid yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gennym. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | | | Dim effaith | Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi'n gweld gwahaniaeth rhwng pobl ar sail eu rhywedd neu ailbennu rhywedd.<br><br>Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant** yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ar draws pob nodwedd a warchodir gan gynnwys ailbennu rhywedd. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniadau a bydd yn sicrhau na fydd dim effaith wahaniaethol. | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | | | Dim effaith | Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi'n gweld gwahaniaeth rhwng pobl ar sail eu sefyllfa briodasol / partneriaeth sifil, felly ni ddylai gael effaith wahaniaethol. | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | | | Dim effaith | Er ein bod ni'n cydnabod y gallai fod perygl bychan o ran y gefnogaeth sydd ar gael i rai sefydliadau sy'n gwneud cais i'r Adolygiad Buddsoddi pe bai aelod allweddol o staff i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth, ni fydd proses yr Adolygiad Buddsoddi'i hunan yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd / mamolaeth. Yn ein barn ni, felly, ni fydd yn cael effaith wahaniaethol. | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hil** | Effaith gadarnhaol | | | Rydym wedi cyhoeddi ein hymrwymiad yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol i dreblu faint o bobl o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol sydd ar fyrddau APW a dyblu'r nifer a gyflogir yn y celfyddydau. Mae gofyn i sefydliadau sy'n ymgeisio dan gynllun yr Adolygiad Buddsoddi ddarparu manylion o ran niferoedd y bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol a gyflogir ganddynt ar hyn o bryd ac a benodwyd i'w Byrddau, ynghyd â manylion unrhyw weithgaredd a amlinellir yn eu cynlluniau busnes sy'n dwyn hyn i ystyriaeth. Bydd yr wybodaeth hon yn addysgu ein hasesiad. | | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn faes ffocws allweddol i ni, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dengys data **Arolwg APW** diweddar fod 196 o bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant wedi'u cyflogi o fewn i sefydliadau APW yn 2021/22.<br><br>Roedd 77 o bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant ar Fyrddau rheoli ein APWau yn 2021/22.<br><br>Dyma gynnydd ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer 2020/21 pan oedd 52 o bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant ar Fyrddau Rheoli. | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hil** | | Effaith negyddol | | Bydd yr Adolygiad Buddsoddi'n gwahodd cynigion gan grŵp dethol o sefydliadau sy'n ateb ein Meini Prawf Cymhwysedd cyhoeddedig. Rydyn ni'n ymwybodol fod sefydliadau a arweinir gan bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn ein Portffolio presennol. | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn faes ffocws allweddol i ni, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. | Bydd y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac i sefydliadau cymwys wneud cais i'r Adolygiad Buddsoddi, yn cael ei hybu'n eang. Cefnogir hyn gan gyfres o weithdai ar lein a gynlluniwyd i annog ymgysylltiad a chyfranogiad yn y broses, yn enwedig o du grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir ar hyn o bryd.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod ein proses ymgeisio yn hygyrch a'n meini prawf ar gyfer dyrannu cyllid yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gennym. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd / Cred** | | | Dim effaith | Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi'n gweld gwahaniaeth rhwng pobl ar sail eu crefydd / cred, felly ni fydd yn cael effaith wahaniaethol. | | |
| **Rhyw** | | | Dim effaith | Canfu Adroddiad Arolwg APW Cyngor Celfyddydau Cymru 2021/22 fod ychydig yn fwy o fenywod (289) nag o ddynion (276) ar Fyrddau ein sefydliadau APW presennol. Er bod gwahaniaeth bychan yma, nid yw'r Adolygiad Buddsoddi'n gwahaniaethu ar sail rhywedd. Yn ein barn ni felly, ni fydd yn cael effaith wahaniaethol. | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tuedd Rywiol** | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ar draws pob nodwedd a warchodir, gan gynnwys tuedd rywiol. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n broses gwneud penderfyniadau a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw effaith wahaniaethol. | | Mae ehangu mynediad a chydraddoldeb yn ganolog i'n Adolygiad Buddsoddiad ac yn ein cynllunio er mwyn cael canlyniad cadarnhaol. Bydd angen i'r sefydliadau a fydd yn derbyn cytundebau ariannu dros sawl blwyddyn hyrwyddo a gyrru'r amcan hwn ymlaen fel un o'i hamodau ariannu. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd. |
| **Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br><br>"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden" | Effaith gadarnhaol | | | Mae datblygu ac arloesi'r celfyddydau i gyfoethogi bywydau a bod o fudd i hunaniaeth ddiwylliannol, iechyd a llesiant y genedl yn ganolog i'n gwaith, a fynegir drwy ein blaenoriaeth ym maes **creadigrwydd**. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses asesu.<br><br>Mae darparu gweithgaredd yn y Gymraeg yn faes ffocws allweddol i ni – a dystir gan ein blaenoriaeth i'r Gymraeg yn y Ddogfen Ymgynghori Adolygiad Buddsoddi a'r gwaith rydyn ni'n ymgymryd ag ef i ddatblygu Strategaeth y Gymraeg mewn ymateb i argymhellion yr Adroddiad Mapio'r Gymraeg. | | Bydd cefnogi creadigrwydd sy'n gyffrous, yn arloesol, yn amrywiol, uchelgeisiol, cynrychioliadol, perthnasol, cynaliadwy yn foesol a rhyngwladol ei olygon yn ystyriaeth gynradd wrth asesu ceisiadau o dan y broses Adolygiad Buddsoddi.<br><br>Bydd gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i sefydliadau ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, a gwneud y gwaith hanfodol o gynhyrchu gwaith i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyda nhw, yn ystyriaeth gynradd wrth asesu ceisiadau o dan y broses Adolygiad Buddsoddi. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae cynnydd yn cael ei fonitro’n glos gan y Cyngor drwy gyfrwng y Pwyllgor Iaith Gymraeg. Dangosodd arolwg APW 2021/22 fod 10,399 o bobl wedi mynychu perfformiadau teithiol Cymraeg, sy’n gynnydd o 2020/21 pan fynychwyd gan 8,960. Er mwyn cymharu ag adeg cyn y pandemig, roedd 43,682 wedi mynychu yn 2019/20.<br><br>Gwnaed 4,324 mynychiad â pherfformiadau mewn lleoliadau APW yn ystod 2021/22, cynnydd o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol pan gofnodwyd 2,056 mynychiad. Dangosodd arolwg APW 2019/20 APW fod 24,636 mynychiad wedi bod i berfformiadau Cymraeg mewn lleoliadau APW. | | Byddwn ni’n sicrhau fod swyddogion sy’n siarad Cymraeg yn asesu ceisiadau yn Gymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effaith negyddol | | Rydyn ni'n croesawu ceisiadau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg yn ôl ein proses Adolygiad Buddsoddi a byddwn yn gwneud darpariaeth i asesu ceisiadau Cymraeg yn eu hiaith wreiddiol.<br><br>Gallai'r Adolygiad Buddsoddi gael effaith wahaniaethol ar siaradwyr Cymraeg am y gallai mewn egwyddor leihau neu gynyddu faint o sefydliadau sy'n derbyn trefniadau cyllido aml-flwydd sy'n darparu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hynny wedyn effeithio ar hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Ond o ystyried fod y Gymraeg yn un o'r 6 blaenoriaeth, mae'r tebygrwydd y bydd y darpar effaith hwn yn digwydd yn fychan iawn. | Mae ein blaenoriaeth iaith Gymraeg yn datgan ein hymrwymiad i weld y Gymraeg yn ffynnu yn ein bywydau creadigol; bod yn gallu creu, cyfranogi a phrofi'r celfyddydau yn ein dewis iaith ac ar yr un pryd adlewyrchu'n ddilys fywyd yng Nghymru. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniadau. | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru o Gymunedau Cyd-gysylltiedig**<br>*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.* | Effaith gadarnhaol | | | Mae gweledigaeth yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn adeiladu ar nod ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad i sicrhau fod ein cyllid yn cyrraedd yn ddyfnach i mewn i gymunedau. Ein bwriad yw cefnogi sector sydd wedi'i chysylltu'n ddwfn â chymunedau, yn enwedig rai sydd wedi'u tanwasanaethu ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n parhau i wynebu rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau. | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant** yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi sector sydd wedi'i chysylltu'n ddwfn gyda chymunedau. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses asesu. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br><br>*"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang"* | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** drwy gyfrwng creadigrwydd a gweithredu sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesol, yn gwneud ymrwymiad i gefnogi sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau moesol ac sy'n ystyried yr effaith ar bobl a'r blaned yn lleol ac yn fyd-eang ym mhob un o'n penderfyniadau. Bydd yr angen i daclo materion byd-eang fel annhegwch, yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng costau byw yn cael eu cyfosod yn erbyn fframwaith cyfreithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymhellach, nodwn y Cytundeb Diwylliannol sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru fel un mecanwaith ar gyfer atebolrwydd i'r dyfodol. | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** yn cydnabod pwysigrwydd creadigrwydd a gweithredu sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesol. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniadau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effaith negyddol | | Er bod ein blaenoriaeth **cyfiawnder hinsawdd** yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gynaliadwyedd moesol, bydd diffyg y mesurau cadarn sydd ar waith ar gyfer asesu'r defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth a chaffael moesol, yn ei gwneud hi'n anodd gwneud asesiad cywir ynghylch a yw sefydliadau a ariennir yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. | Rydyn ni'n datblygu strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau a fydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a'r sector i sefydlu mecanweithiau ar gyfer sefydlu data sylfaenol a thechnegau monitro effeithiol. Bydd y strategaeth hefyd yn edrych ar y cyngor a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y sector i allu gweithredu mewn dull sy'n gwneud newid cadarnhaol i lesiant byd-eang. | |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Iachach**<br><br>*"Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol"* | Effaith gadarnhaol | | | Mae ein rhaglen Celfyddydau ac Iechyd wedi tystio'n glir i'r effaith gadarnhaol y mae'r celfyddydau'n ei gael ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant.<br><br>Mae gweithgaredd Celfyddydau ac Iechyd yn sail i bob un o'n 6 blaenoriaeth ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, yn enwedig Creadigrwydd, Tegwch a Thrawsnewid.<br><br>Mae ein papur Adolygiad Buddsoddi'n cynnwys ymrwymiad i hybu grym y cyswllt rhwng y celfyddydau ac iechyd, ac i sicrhau fod y celfyddydau'n gwneud lles i iechyd a llesiant y genedl. | | Drwy gyfrwng datblygu a hyrwyddo parhaus o'r rhaglen a gweithgaredd Celfyddydau ac Iechyd, a'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei gael ar gymdeithas. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br><br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth* | Effaith gadarnhaol | | | Mae'r Papur Adolygiad Buddsoddi'n amlinellu dull ffres o fynd i'r afael â chlustnodi cyllid aml-flwydd i sefydliadau, gyda dewisiadau aml-flwydd ar gyfer costau craidd ac ariannu prosiectau ar gael. Bydd hyn yn fodel sy'n fwy hyblyg ac ymatebol i sefydliadau o beth wmbredd, a fydd yn fwy diwastraff a llai beichus i bawb ohonom, sydd wedi ymrwymo gymaint i'r sector celfyddydau. Bwriad y model hwn yw helpu sefydliadau gyda'r adnodd a'r sefydlogrwydd ariannol y maen nhw wedi tystio sydd ei angen arnynt er mwyn iddyn nhw allu darparu'r gweithgaredd er mwyn cyflawni ein nodau strategol y maen nhw wedi ymrwymo iddo, mewn dull sy'n ymateb yn fwy hyblyg i'w sefyllfa a'u hanghenion unigol nhw. | | Mae'r Papur Adolygiad Buddsoddi'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr ynglŷn â'r ystyriaethau y mae'n rhaid iddyn nhw roi tystiolaeth eu bod wedi ymwneud ag ef wrth wneud cais am eu lefel o gyllid a'r lefelau o weithgaredd y gallen nhw ei gyflawni yn wyneb hyn.<br><br>Bydd yr ystyriaethau hyn yn ffurfio rhan allweddol o'n proses asesu.<br><br>Bydd gofyn i ymgeiswyr arddangos sut maen nhw'n ateb y gofynion hyn drwy gyfrwng eu cais a'r cynllun busnes sy'n cyd-fynd ag ef. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.* | | | | Yn ogystal, mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **meithrin doniau** yn cydnabod pwysigrwydd meithrin sgiliau a datblygu potensial ein cenedlaethau i'r dyfodol.<br><br>Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** yn gwneud ymrwymiad i ddatgarboneiddio ein harferion i gyflawni sector gelfyddydau sy'n garbon niwtral erbyn 2030 ac yn sero net erbyn 2050.<br><br>Bydd ein proses asesu'n digwydd i raddau helaeth yn electronig, gan leihau'r angen felly i swyddogion asesu orfod argraffu ceisiadau a deunydd atodol a gyflwynwyd. | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **meithrin doniau** yn cydnabod pwysigrwydd meithrin sgiliau a datblygu potensial ein cenedlaethau i'r dyfodol. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniad.<br><br>Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** yn gwneud ymrwymiad i ddatgarboneiddio ein harferion i gyflawni sector gelfyddydau sy'n garbon niwtral erbyn 2030 ac yn sero net erbyn 2050. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniad. |

| | + Effaith gadarnhaol | - Effaith negyddol | Dim effaith | Sut effeithir y categori hwn a beth yw'r dystiolaeth am hyn? | Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gydnerth**<br><br>*"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid."* | | | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** yn gwneud ymrwymiad i berchnogi'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynnwys mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, a galluogi artistiaid i gyflawni potensial y celfyddydau i beri newid yng Nghymru a'r byd drwy gyfrwng gwerthoedd tosturi, brawdoliaeth ac iachau. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniad. | | Mae ein blaenoriaeth sy'n ymwneud â **chyfiawnder hinsawdd** yn gwneud ymrwymiad i berchnogi'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynnwys mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, a galluogi artistiaid i gyflawni potensial y celfyddydau i beri newid yng Nghymru a'r byd drwy gyfrwng gwerthoedd tosturi, brawdoliaeth ac iachau. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n proses gwneud penderfyniad. |

## Atodiad 2

**Gweithredoedd a amlygwyd drwy'r Asesiad hwn**

Pan fyddwch chi'n creu gweithred, rhaid i chi sicrhau fod modd iddo gael ei gyflawni. Mae angen i chi drafod y weithred gyda'r Swyddog a fydd yn arwain ar gyflawni'r weithred honno (os nad chi yw hwnnw). Gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno ar yr amserlen, yn ogystal â sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar ei gyfer, sut y bydd yn cael ei gyflenwi a'i fonitro. Rhaid gwneid hyn cyn y gellir cymeradwyo'r Asesiad Effaith a'r cynnig cysylltiedig.

| Pwnc | Gweithred / Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Oblygiadau Adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl a B/byddar**<br><br>Rydyn ni'n ymwybodol fod sefydliadau a arweinir gan bobl Anabl wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn ein Portffolio presennol | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl anabl yn faes ffocws allweddol i ni.<br><br>Byddwn ni'n cymryd cyngor er mwyn profi ein proses dan bwysau a chynghori ar sut y gallwn ddileu unrhyw ddarpar rwystrau a godwyd drwy gyfrwng y broses ymgeisio. | **Uwch dîm arwain (UDA)/Cyngor** | **Proses Asesu (Ebrill – Mehefin 2023)**<br><br>**Penderfyniad y Cyngor (Gorffennaf 2023)** | Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses. | Cefnogir y gweithgaredd gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi'u clustnodi, ac yn ddarostyngedig i graffu rheolaidd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae gofyn i sefydliadau sy'n ymgeisio dan yr Adolygiad Buddsoddi ddarparu manylion am faint o bobl anabl a gyflogir ganddynt ar hyn o bryd, a faint a benodwyd i'w Byrddau, ynghyd â manylion unrhyw weithgaredd a amlinellwyd yn eu cynlluniau busnes i gymryd ystyriaeth o hyn.<br><br>Bydd yr wybodaeth hon yn addysgu ein hystyriaethau asesu. | | | | |

| Pwnc | Gweithred / Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Oblygiadau Adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hil**<br><br>Rydyn ni'n ymwybodol fod sefydliadau a arweinir gan bobl o gefndiroedd Ethnig a diwylliannol amrywiol wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn ein Portffolio presennol. | Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn faes ffocws allweddol i ni, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.<br><br>Bydd y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac i sefydliadau cymwys wneud cais i'r Adolygiad Buddsoddi'n cael ei hybu'n eang. Cefnogir hyn gan gyfres o weithdai ar lein a gynlluniwyd i annog ymgysylltiad a chyfranogiad yn y broses, yn enwedig o du grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir ar hyn o bryd. | **UDA/ Cyngor** | **Proses Asesu (Ebrill – Mehefin 2023)**<br><br>**Penderfyniad y Cyngor 2023** | Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses. | Cefnogir y gweithgaredd gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi'u clustnodi, ac yn ddarostyngedig i graffu rheolaidd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rydyn ni'n cymryd cyngor er mwyn profi ein proses dan bwysau a chynghori ar sut y gallwn ddileu unrhyw ddarpar rwystrau a godwyd drwy gyfrwng y broses ymgeisio.<br><br>Mae gofyn i sefydliadau sy'n ymgeisio dan yr Adolygiad Buddsoddi ddarparu manylion am faint o bobl o gefndiroedd Ethnig a diwylliannol amrywiol a gyflogir ganddynt ar hyn o bryd, ac a benodwyd i'w Byrddau, ynghyd â manylion unrhyw weithgaredd a amlinellwyd yn eu cynlluniau busnes i gymryd ystyriaeth o hyn.<br><br>Bydd yr wybodaeth hon yn addysgu ein hystyriaethau asesu. | | | | |

| Pwnc | Gweithred / Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Oblygiadau Adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br><br>Er bod ein blaenoriaeth **cyfiawnder hinsawdd** yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gynaliadwyedd moesol, bydd diffyg y mesurau cadarn sydd ar waith ar gyfer asesu'r defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth a chaffael moesol, yn ei gwneud hi'n anodd gwneud asesiad cywir ynghylch a yw sefydliadau a ariennir yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. | Rydyn ni wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau a fydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a'r sector i sefydlu mecanweithiau ar gyfer sefydlu data sylfaenol a thechnegau monitro effeithiol. Bydd y strategaeth hefyd yn edrych ar y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar y sector i allu gweithredu mewn dull sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. | **Datblygu'r Celfyddydau**<br><br>**Cymeradwyaeth UDA/ Cyngor** | | Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses. | Cefnogir y gweithgarwch gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi eu hymrwymo iddo, ac fe'i harchwilir yn gyson. |

| Pwnc | Gweithred / Tasg | Prif gyfrifoldeb | Amserlen | Oblygiadau Adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sut fydd y rhain yn cael eu monitro?**<br>Bydd y rhain yn cael eu monitro gan y Bwrdd Prosiect a'u hadrodd i'r UDA drwy gydol y broses ymgeisio ac asesu ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, a'i adlewyrchu yn y cyhoeddiadau a wneir ar ddiwedd y broses ym mis Gorffennaf 2023. | | | | | |
| **Sut a ble fydd hwn yn cael ei gyhoeddi?**<br>Bydd yr Asesiad Effaith cychwynnol hwn yn cael ei gyhoeddi adeg yr ymgynghoriad a'i ddiweddaru a'i ailgyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn wybyddus. | | | | | |